# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 128(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

(60 munud)

### 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(30 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cenhadaeth Ein Cenedl

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diogelwch Adeiladau

(30 munud)

## 7 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023

(15 munud)

**NDM8228** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2023.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) – GOHIRIWYD TAN 28 MAWRTH

(0 munud)

**NDM8226** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Tachwedd 2022, a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y

Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr 2022, 6 Chwefror 2023, a 10 Mawrth 2023, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm, Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3)

## 9 Dadl: Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 2021 – 2022

(30 munud)

**NDM8224** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd yn nodi adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar weithrediad Tribiwnlysoedd Cymru yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Rhagfyr 2022.

Pedwerydd Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru Ebrill 2021 – Rhagfyr 2022

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi galwadau am lawer mwy o annibyniaeth i Uned Tribiwnlysoedd Cymru, a chreu adran anweinidogol i weinyddu Tribiwnlysoedd Cymru.

## 10 Dadl: Adroddiad Blynyddol Estyn 2021-22

(60 munud)

**NDM8227** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi Adroddiad Blynyddol 2021-22 gan Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Fawrhydi yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2023.

2. Yn nodi arddeliad yr adroddiad sef, er i nifer o'r materion a gododd yn ystod y pandemig ddechrau dangos arwyddion o welliant graddol, bod heriau yn parhau.

3. Yn croesawu casgliad yr adroddiad bod darparwyr addysg a hyfforddiant wedi ymateb yn dda i'r heriau, gan osod dysgwyr wrth galon eu gwaith.

4. Yn croesawu canfyddiadau’r adroddiad bod pob darparwr wedi canolbwyntio'n briodol ar les dysgwyr a staff, gyda'r darparwyr cryfaf yn parhau i hunanwerthuso yn agored ac yn onest a rhoi ffocws di-flino ar addysgu a dysgu.

Estyn Adroddiad Blynyddol | Annual Report - 2021-2022 (llyw.cymru)

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023